| Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 10fed o Chwefror 2026 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr. | |
|---|---|
| **PRESENNOL** | |
| Eifion Williams | Emyr Gareth |
| Eleri Wyn Thomas | Dafydd Huws |
| Dan Williams | Cynog Prys |
| Llŷr Evans | |
| | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| **1.1** | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Deiniol Tegid, Cynghorydd Iolo Williams, Cynghorydd Meleri Jones a'r Cynghorydd Gwion Emyr. | **CLERC** |
| **1.2** | Croesfan Ysgol Ger y Nant - fe gyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Deiniol Tegid ar y sefyllfa anniogel oedd yn bodoli ar y ffordd i''r ysgol o Ger y Nant. Trafodwyd y mater yn drylwyr a phenderfynwyd trio annog yr ysgol gynradd i annog rhieni disgyblion yr ysgol i gerdded i'r ysgol i drio lleihau'r broblem ac i leddfu rhywfaint ar y traffig yn yr ardal. Y Clerc i anfon at yr ysgol. | **CLERC** |
| **1.3** | Cyflwr wyneb y ffordd fawr drwy'r pentref - cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Deiniol Tegid. Roedd yr aelodau yn cytuno bod wyneb y ffordd angen sylw a bod rhai tyllau yn ddwfn iawn. Y Clerc i anfon at Priffyrdd Gwynedd. | **CLERC** |
| **2.0** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **3.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **3.1** | Eitem 3.2 yr holl gynghorwyr gan eu bod ynn aelodau o gyrff/cymdeithasau oedd wedi gwneud ceisiadau. Eitem 10.1 Cynghorydd Emyr Gareth | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **4.1** | Derbyniwyd gwariant mis Ionawr 2026. Derbyniwyd hefyd adroddiad ariannol am y mis hwnnw. | |
| **4.2** | Ceisiadau Cymorth Ariannol- roedd Pwyllgor Rheoli wedi derbyn y ceisiadau +, wedi eu trafod a chyflwynwyd argymhellion i'r Cyngor. Penderfynwyd ar y canlynol. Roedd Tri chais yn hwyr ond penderfynwyd eu hystyried mis nesaf. Derbyniwyd dau gais oedd yn wahanol i'r arfer. Ystyriwyd dilysrwydd y ceisiadau yma a phenderfynu eu bod yn ddilys oherwydd cysylltiadau a'r gymuned Y Felinheli.<br>Y Goriad 200<br>Cyfeillion Ysgol Y Felinheli 1224<br>CPD Y Felinheli 1000<br>CPD Merched y Felinheli 1000<br>PARCH 500 | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gŵyl y Felin 1000<br>Pwyllgor Regata 400<br>CIC Bethania 150<br>Brownies 300<br>Clwb y Felin 250<br>Eisteddfod y Felinheli 600<br>Bwyd Bendigedig 300<br>Band Llanrug 300<br>Clwb Rygbi Caernarfon 500<br>Cyfanswm £ 6,924.00 | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **5.1** | Bydd Cofnodion Ionawr 2026 yn cael eu cadarnhau ym mis Mawrth. | |
| **5.2** | Cynllun Rheoli Traffig - ymateb wedi ei dderbyn, cytunir ar lwybr y dargyfeirio ond ni chytunir gyda'r modd o osod yr arwyddion dros dro. Penderfynwyd bod angen cyfarfod dilyniant i'r cynllun. Y Clerc i gysylltu Swyddog Traffig Cyngor Gwynedd er mwyn trefnu cyfarfod. Y Cynghorwyr i fod ar gael yw Daniel Williams, Emyr Gareth a Dafydd Huws | **CLERC** |
| **5.3** | Llwybr Cerrig yr Afon - ymateb wedi dod oddi wrth Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd cael cyfarfod safle gyda'r Swyddog, y Cynghorydd Eifion Williams i fod yn bresennol. Y Clerc i anfon at y Swyddog Llwybrau er mwyn trefnu dyddiad cyfleus. | **CLERC** |
| **5.4** | i. Prydles Stad y Goron - mae'r brydles hon angen eu hadnewyddu, dim ymateb wedi bod hyd yma. Y Clerc i anfon at asiant Stad y Goron. ii. Prydles Tir yr Hen Rheilffordd - dogfen o amrywiad wedi ei anfon at gyfreithiwr y Cyngor Cymuned i'w adolygu. iii. Prydles Cae Pêl droed a Parc Cychod Bach - mae'r brydles yma heb ei derbyn hyd yma. Y Clerc i wneud ymholiadau gydag adran eiddo Cyngor Gwynedd. iv. Prydles Tir Hen Rheilffordd - mae'r brydles yma gyda'r cyfreithiwr. | **CLERC** |
| **5.5** | Ymestyn llwybr Beicio ger yr hen fodurdy - ymateb wedi dod gan y Swyddog i gynnal cyfarfod safle. Penderfynwyd ar y dyddiad ag amser, y Clerc i hysbysu hyn hefo'r Swyddog. | **CLERC** |
| **5.6** | Cais Cynllunio pêl droed Ffordd lan y môr - dim dilyniant er bod y Clerc wedi anfon at yr Adran Gynllunio. | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **7.1** | Rhif Cais: C26/0036/20/CR Lleoliad: Cyngor Chwaraeon Cymru, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai, Llanfair Is Gaer, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1TS Bwriad: Addasiadau mewnol a newidiadau allanol i'r offer peirannyddol **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **7.2** | Rhif Cais: C25/0562/20/DT Lleoliad: 18 Uwch Menai, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4HJ Bwriad:*Ail osod ffenest llawr* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *gwaelod gyda drysau plyg, codi balconi llawr gwaelod uwchben lefel islawr a dymchwel adeilad storfa allanol atodol i gefn yr eiddo*. **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **8.0** | **RHEOLAETH** | |
| **8.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **8.2** | Y Pwyllgor i adolygu Polisi Egwyddorion grantiau bach. Hefyd i adolygu Polisi Meinciau Coffa ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor. | **RHEOLAET H** |
| **9.0** | **ASEDAU** | |
| **9.1** | Cafwyd pris gan Designer Signs i osod ffenestri polycarbonate o fewn rhai o'r cysgodfannau. Y Clerc i anfon atynt i symud ymlaen a'r gwaith gan eithrio un. | **CLERC** |
| **9.2** | Tir yr hen Rheilffordd - mae gwaith y tocio wedi gwneud gwahaniaeth ac roedd y Cynghorydd Daniel Williams am gyfathrebu a Chyngor Gwynedd i ymestyn y gwaith tocio yn syth a dim disgwyl am flwyddyn arall gan nad oedd dim pwrpas i ddisgwyl. Y Cynghorydd hefyd i edrych os oes modd cael grant arall. | **CLERC** |
| **10.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **10.1** | Nid oes llawer o gyllid ar gael i Lonydd Las y Sir. Efallai byddai gwaith cynnal a chadw a fyddai yn angenrheidiol ar gyfer defnydd diogel o Lon Las drwy'r Felinheli yn golygu na fyddai cyllid ar gael i'r gwaith ac o ganlyniad hyn byddai'r llwybr yn cael ei gau. Sefyllfa bryderus sydd angen cefnogaeth y Cynghorwyr Sir rhag i hyn ddigwydd. Y Clerc i hysbysu'r Cynghorwyr Sir o hyn. | **CLERC** |
| **10.2** | Mae ymylon Ffordd Gaernarfon wedi ei dorri ac oherwydd hyn mae sbwriel sydd wedi ei daflu wedi dod i'r olwg. Y Clerc i wneud cais i Ardal Ni i'w gasglu | **CLERC** |
| **11.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **11.1** | Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn sicrhau bod Prawf trydan yn cael ei wneud ar offer symudol y neuadd. Hefyd mae angen edrych os yw gosodiad trydanol y neuadd angen prawf 5 mlynedd. | **DW** |
| **12.0** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| **12.1** | Hyfforddiant yw trefnu pan fydd y dydd wedi mystyn. Credir erbyn mis Mawrth fydd yr hyfforddiant wedi ei gwblhau. Bydd y Cynghorydd Daniel a Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno'r hyfforddiant. | **DW** |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |